Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfarfod o'r Bwrdd: 1 Hydref 2021

**Eitem 3**

**Teitl y papur:** Awdurdod Cyllid Cymru: profiad o weithredu fel Adran Anweinidogol

**Diben y papur:** Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r profiad o weithredu Awdurdod Cyllid Cymru fel Adran Anweinidogol, ac mae'n awgrymu cyfleoedd i ddefnyddio'r model hwn ar gyfer mentrau eraill.

**Camau gweithredu i'w cymryd gan y Bwrdd:**Gofynnir i'r bwrdd nodi cynnwys y papur.

**Y swyddog sy'n cyflwyno'r papur:**Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru a Dyfed Alsop, Prif Swyddog Gweithredol, Awdurdod Cyllid Cymru

**Cafodd y papur ei baratoi gan / ei glirio gan:Awdur:** Joseph Dooher, Uwch-gynghorydd Polisi Awdurdod Cyllid Cymru.

**Cliriwyd gan:** Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru.

**Cyfraniad/safbwynt Ochr yr Undebau Llafur:** amherthnasol

**Dyddiad y cafodd ei roi i'r Ysgrifenyddiaeth** 09/07/2021

## **1.** Cefndir

1.1 Wrth i drethi eiddo (Treth Trafodiadau Tir) ac amgylcheddol (Treth Gwarediadau Tir) gael eu datganoli i Gymru, roedd angen creu awdurdod i gasglu a rheoli'r trethi hyn.

1.2 Roedd Deddf Cymru 2014 wedi rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Senedd greu corff Gwasanaeth Sifil a fyddai â'r swyddogaethau canlynol:

- Casglu a rheoli'r trethi datganoledig
- Materion cyllid llywodraeth leol

Roedd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 wedi sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru fel corff i gasglu a rheoli trethi datganoledig. Nid yw swyddogaethau cyllid llywodraeth leol wedi cael eu rhoi i'r Awdurdod eto, er bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi gofyn i'r Awdurdod gefnogi'r agenda ar gyfer diwygio cyllid llywodraeth leol.

## **2.** Y model anweinidogol

2.1 Cafodd Awdurdod Cyllid Cymru ei sefydlu fel Adran Anweinidogol – y corff newydd cyntaf o'r math hwn i gael ei greu gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn benthyca o'r arferion gorau rhyngwladol o ran sut i sefydlu awdurdod cyllid, yn benodol cyd-destun y DU lle mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn Adran Anweinidogol.

2.2 Mae'r model anweinidogol yn caniatáu i swyddogaethau'r Llywodraeth gael eu cyflawni gyda rheolaeth Weinidogol wedi ei chydbwyso gan amddiffyniadau ar gyfer trethdalwyr o ran penderfyniadau unigol a chyfrinachedd eu data. Fe'i defnyddir yn benodol mewn perthynas â sefydliadau lle y byddai unrhyw ymwneud gwleidyddol neu ymwneud gwleidyddol ymddangosiadol yn annymunol. Mae enghreifftiau eraill ar waith yn llywodraeth y DU, sef y Comisiwn Elusennau, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a Chofrestrfa Tir EM.

## **3.** Adolygiad Llywodraethu

3.1 Roedd adroddiad Archwilio Cymru, *Datganoli cyllidol yng Nghymru: Diweddariad ar y paratoadau ar gyfer gweithredu,* yn dweud y dylid adolygu trefniadau llywodraethu Awdurdod Cyllid Cymru yn rheolaidd. Mae Awdurdod Cyllid Cymru a Thrysorlys Cymru wedi cynnal adolygiad o'r fath yn ddiweddar, gan ystyried ar yr un pryd sut yr oedd y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod wedi gweithio'n ymarferol, er mwyn gweld beth arall allai gael ei gyflawni drwy'r model gweithredu hwn.

3.2 Mae casgliadau'r adolygiad yn dangos bod y model Adran Anweinidogol wedi gweithio'n dda. Er enghraifft, o ran:

- cydweithredu ar brotocolau rhannu data a chyfathrebu;
- y newidiadau diweddar mewn cyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir;
- yn fwy cyffredinol, darperir llwybr syml ar gyfer adlewyrchu blaenoriaethau'r Llywodraeth drwy berthynas Gweinidogion/ gwasanaeth sifil uniongyrchol.

3.3 Roedd elfennau y gellid eu gwella, er mwyn cyflawni mwy. Yn benodol:

- Sicrhau bod y cyfrifoldebau dros wneud penderfyniadau'n glir rhwng y Prif Weithredwr, Bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru, a'r Gweinidog.
- Sicrhau ei bod yn glir bod Awdurdod Cyllid Cymru yn sefydliad gwasanaeth sifil, ac yn rhan lawn o swyddogaethau gweithredol Llywodraeth Cymru. Oherwydd hynny, nid oes angen i'r Awdurdod fod yn sefydliad hyd braich, a dylai'r ddau weithio gyda'i gilydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Cyfleoedd i gael rhagor o fudd o'r trefniadau drwy fanteisio ar allu'r Awdurdod i gefnogi gwaith sy'n ymwneud â chyllid llywodraeth leol.
- Pe bai bwriad i'r Awdurdod ymwneud â gwaith y tu allan i gyllid llywodraeth leol a threthi datganoledig, byddai angen newid deddfwriaeth y DU.
- Byddwn yn creu cytundeb polisi partneriaeth sy'n ffurfioli dull gweithredu Trysorlys Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru o ran cydweithredu ar faterion polisi trethi, gan ganiatáu inni gyfuno adnoddau a safbwyntiau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau.

3.3 Yn sgil yr adolygiad, cafodd y ddogfen fframwaith a oedd yn llywodraethu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru ei disodli gan Gytundeb Rhyngadrannol (gweler yr atodiad). Mae hwn yn disgrifio'r berthynas rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth Cymru, sef perthynas sy'n seiliedig ar bartneriaeth rhwng partneriaid cyfartal.

Argymhelliad/Argymhellion

4.1 Gallai'r bwrdd ddymuno ystyried a fyddai'r model Adran Anweinidogol yn briodol ar gyfer meysydd eraill yng ngweithgarwch y Llywodraeth.

Cyhoeddi

Dylid cyhoeddi’r papur hwn yn llawn gan nad yw unrhyw ran yn berthnasol i esemptiadau yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth sy’n berthnasol.